

Teitl y gweithgaredd:	Idiomau a phriod-ddulliau pennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên
Disgrifiad:	1. Gweithgaredd ar bapur i gadarnhau dealltwriaeth o rai o'r idiomau a'r priod-ddulliau a ddefnyddir ym mhennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên.
Blynyddoedd ysgol:	Bl 5 a 6
Sgil Rhaglen Astudio posib:	Ysgrifennu / Ysgrifennu'n gywir / Iaith
Testun T. Llew Jones	Pennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên, gan T. Llew Jones, Gwasg Gomer.
Offer angenrheidiol:	Adnodd y Dysgwr – taflen
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl darllen y bennod, trafod beth yw idiom/priod-ddull (<i>ffordd arbennig o siarad</i>). Gofyn am enghreifftiau Cymraeg a Saesneg. • 'Adnodd y Dysgwr'. Bydd rhaid dewis yr esboniad cywir o'r blwch i'w ysgrifennu o dan bob brawddeg. Y dysgwyr yn gweithio'n unigol ar hyn. • Fel dosbarth, gwirio'r ystyron. Ar yr un pryd, ceisio cofio lle roedd y frawddeg yn dod yn y stori (maen nhw yn eu trefn gronolegol) a pham roedd, e.e. llygaid Guto wedi'u hoelio ar yr injan fawr, pam roedd Cwnstabl Llewelyn yn edrych i fyw llygaid Guto. Bydd hyn yn fodd o fynd o dan groen y testun ac ailadrodd yr idiomau/priod-ddulliau yn eu cyd-destun. • Yn ogystal, meddwl am ffyrdd eraill o ddweud rhai pethau, e.e. wedi eu hoelio ar (<i>yn rhythu ar</i>) nerth ei draed (<i>fel cath i gythraul, fel y gwynt</i>); ar unwaith (<i>heb oedi, yn ddi-oed</i>); ar bigau'r drain eisiau dweud rhywbeth (<i>ar dân</i>); i fyw ei lygaid (<i>i gannwyll ei lygaid</i>); yn wyn fel sialc (<i>yn wyn fel y galchen</i>).
Gweithgareddau gwahaniaethol:	<ul style="list-style-type: none"> • Y dysgwyr yn ysgrifennu eu brawddegau eu hunain, gan gynnwys un idiom/priod-ddull ym mhob brawddeg. Gellid gwneud hyn rai ddiwrnodau'n ddiweddarach fel bod adolygu'n digwydd ac er mwyn i'r idiomau ymsefydlu ym meddwl y dysgwyr dros gyfnod o amser. • Gyda grwpiau blynyddoedd is, edrych ar frawddegau 1, 3, 5, 6, 7 yn unig.